Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynsiriol**

**259/261 Heol Castell Nedd**
**Llansawel**
**Castell-nedd**
**SA11 2SL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/05/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynsiriol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bravemore Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Ebrill 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae awyrgylch bywiog a chroesawgar yng Nghartref Gofal Brynsiriol. Mae'r bobl yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, sy'n lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ystafelloedd preifat a chymunedol yn gartrefol ac wedi'u dodrefnu'n addas. Mae'r unigolyn cyfrifol yn rheoli'r gwasanaeth gyda chymorth y rheolwr cynorthwyol. Mae'r rheolwyr wedi ymrwymo i ddarparu’r gofal gorau posibl i wella llesiant y bobl; ethos a rennir gan y tîm cyfan o'r staff.

Mae'r bobl yn rhyngweithio'n ystyrlon ag eraill ac yn gwneud pethau maen nhw'n eu mwynhau. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl â charedigrwydd a thosturi, gan hybu eu hiechyd, diogelwch a'u hannibyniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu anghenion y bobl. Cânt eu recriwtio a'u cefnogi'n briodol. Mae'r rheolwyr yn monitro arfer yn agos ac yn gwneud newidiadau i wella profiadau y bobl.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae'r bobl yn mwynhau bywyd cymdeithasol da. Cânt eu cefnogi i gynnal perthnasoedd pwysig a meithrin cyfeillgarwch newydd. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fwynhau gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth amserol. Maent yn sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau rhagnodedig ac yn elwa ar fewnbwn meddygol ac arbenigol. Siaradodd y bobl yn uchel am eu profiadau:

- *“I’m very happy, got nothing to moan about! I have cooked meals and there’s a church around the corner. What more could I want?”*
- *“I’ve been very impressed. When I leave, I’ll miss them. They’re brilliant!”*
- *“They’re a marvellous group. It’s wonderful what they do for everyone.”*

Caiff hawliau'r bobl eu parchu. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch a'u cefnogi i wneud penderfyniadau yn ddyddiol. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely fel y dymunant. Amlinellir eu cefndir cymdeithasol a'u dewisiadau gofal mewn cynlluniau personol. Mae'r gweithwyr gofal yn deall yr hyn sy'n bwysig i'r bobl. Maent yn helpu'r bobl i adennill a chynnal eu hannibyniaeth. Mae'r rheolwyr yn gofyn am farn y bobl am y gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae mesurau ar waith i helpu gadw'r bobl yn ddiogel. Mae systemau larwm yn galluogi'r bobl i ofyn am gymorth a symud o gwmpas gyda'r cymorth angenrheidiol. Mae'r staff yn glir ynghylch gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban. Maent yn nodi ac yn lleihau risgiau i ddiogelwch y bobl, cyn belled ag y bo modd. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus wrth ymdrin â damweiniau a digwyddiadau. Cânt ystod dda o hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ymarfer yn ddiogel. Caiff y cartref a'i gyfleusterau eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r rheolwyr yn monitro ac yn codi safonau yn rheolaidd.

Mae'r llety wedi'i gyflwyno'n gartrefol, gydag ôl meddwl. Mae gan y bobl ddewis o lolfeydd cymunedol a gallant gerdded yn rhydd rhwng y prif adeilad a'r anecs. Gall y bobl dreulio amser yn yr awyr agored yn ddiogel. Maent yn aml yn elwa o uwchraddio amgylcheddol o dan do ac yn yr awyr agored. Cynhelir safon dda o lanweithdra i leihau risgiau traws-heintio.

## Gofal a Chymorth

Mae’r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl ar sail hirdymor neu dros dro, wrth i rai baratoi i ddychwelyd adref yn dilyn cyfnod o salwch. Caiff anghenion gofal a chymorth unigol y bobl eu nodi mewn cynlluniau personol sy’n cael eu hadolygu’n fisol. Mae'r rheolwyr yn monitro arfer yn agos i sicrhau eu bod hefyd yn cael eu diweddaru'n brydlon yn dilyn newid. Mae'r gweithwyr gofal yn deall yr hyn sy'n bwysig i'r bobl. Maent yn helpu'r bobl i gyflawni eu nodau drwy hybu eu hiechyd a'u hannibyniaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael diweddariadau am lesiant y bobl yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo a thrwy lyfr cyfathrebu. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol, gyda mewnbwn gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol perthnasol. Mae archwiliadau rheolaidd yn sicrhau bod arferion gofal yn parhau i fod yn ddiogel. Mae'r rheolwyr yn gwirio cofnodion dyddiol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau i safon gyson dda. Mae gwaith hefyd ar y gweill i wella ansawdd y cynllunio mewn perthynas â dymuniadau diwedd oes y bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth priodol gyda'u meddyginiaeth, a gaiff ei storio'n ddiogel yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae gan y gwasanaeth berthynas dda â'r fferyllfa a'r feddygfa, sy'n sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi mewn modd amserol. Dyrennir cyfrifoldeb am reoli meddyginiaethau bob shifft i'r arweinydd meddyginiaeth. Mae'n ofynnol iddynt wirio cofnodion meddyginiaeth ar ddiwedd eu sifft i sicrhau bod yr holl feddyginiaethau a ragnodwyd wedi'u rhoi a'u dogfennu'n gywir. Mae cofnodion yn annog y gweithwyr gofal i wirio tymereddau storio meddyginiaeth bob dydd, gyda'r rheolwyr yn eu harchwilio. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwirio cofnodion meddyginiaeth yn ystod ymweliadau ffurfiol ac yn gosod camau gweithredu i wella arfer lle bo angen. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant meddyginiaeth ac asesiadau cymhwysedd cyn rhoi meddyginiaethau.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i gynnal diet iach ac amrywiol drwy hybu dewis a chynnig diodydd a byrbrydau rheolaidd. Cedwir cofnodion bwyd a hylif fel y gall y gweithwyr gofal nodi a gweithredu ar unrhyw bryderon ynghylch maeth a hydradiad y bobl yn gyflym. Gwelsom y bobl yn bwyta gyda'i gilydd ar gyfer eu pryd amser cinio, a dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau. Mae'r bobl yn rhyngweithio'n dda â'r gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn annog ac yn cynorthwyo'r bobl mewn ffordd ofalgar, sensitif, y mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol iddi. Mae sgwrs a chwerthin yn llifo'n hawdd ac mae'n ymddangos bod y bobl yn cael cysur o'r wybodaeth a'r sicrwydd y mae'r gweithwyr gofal yn eu darparu. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac yn gweithredu'n gyflym i leihau risgiau i'w diogelwch.

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Mae cofnodion yn dangos eu bod wedi mwynhau trip pantomeim yn ddiweddar, trefnu blodau, te prynhawn, peintio balŵns, creu cerddoriaeth, chwarae sgitls a garddio. Mae'r bobl yn mynychu'r eglwys leol a'r ganolfan ddydd yn rheolaidd. Gwelsom y bobl yn chwarae gêm fywiog o fingo ac yn ymlacio yn y lolfeydd cymunedol amrywiol. Mae'r cydlynwyr gweithgareddau yn cynnal partïon bob

mis, lle gall y bobl wisgo i fyny a mwynhau bwyd a diod sy'n gysylltiedig â'u thema ddewisol. Mae diwrnod sŵoleg wedi'i gynllunio, a fydd yn cynnwys dod ag ymlusgiaid i'r cartref a chelf a chrefft ar thema anifeiliaid. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried y gweithgareddau y mae'r bobl wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod ymweliadau ffurfiol â'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae’r llety’n gartrefol ac mae ganddo’r cyfleusterau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'n cynnwys prif adeilad gydag anecs cyfagos, lle mae ystafelloedd gwely ychwanegol ac ystafelloedd cymunedol. Mae gardd ganolog gaeedig lle gwelsom y bobl yn treulio amser ar eu pen eu hunain neu gyda pherthnasau. Gwelsom rai cyffyrddiadau personol yn ystafelloedd y bobl, sy'n cael eu gosod yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd un person, *“I have everything I need and more”.* Dywedodd person arall wrthym eu bod yn fodlon ar eu ffenestr fawr gan ei bod yn adlewyrchu llawer o olau. Mae addurn y cartref yn cynnwys gwahanol bwyntiau o ddiddordeb. Er enghraifft, mae ‘Lôn Atgofion’ wedi’i chreu ar hyd y coridor sy’n rhedeg rhwng y prif adeilad a’r anecs. Mae'n cynnwys delweddau a nodweddion cyfnod sy'n atgoffa rhywun o'r oes a fu. Mae hysbysfyrddau yn dangos rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn gyffredin ynghyd â gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau. Mae byrddau lluniau wedi'u creu fel cyflwyniad i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref.

Mae'r adeilad yn ddiogel. Ni all ymwelwyr ddod i mewn i'r cartref heb gymeradwyaeth y staff. Gosodir bysellbadiau ar allanfeydd i atal y bobl rhag gadael yr adeilad heb gymorth. Mae larymau ar ddrysau mewnol a'r gatiau sy'n arwain at risiau i rybuddio gweithwyr gofal wrth i'r bobl symud i ardaloedd peryglus. Mae system cloch alw yn galluogi'r bobl i alw ar y gweithwyr gofal am gymorth. Gwelsom weithwyr gofal yn ymateb yn gyflym i larymau. Mae agoriadau ffenestri wedi'u cyfyngu i leihau'r risg y bydd y bobl yn cwympo o uchder sylweddol. Mae cemegau'n cael eu storio'n ddiogel. Mae cofnodion yn dangos bod yr offer a'r cyfleustodau'n cael eu harchwilio a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni a argymhellir. Mae'r cartref yn cyflogi'r gweithwyr cynnal a chadw sy'n cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch arferol ac atgyweirio ac ailaddurno cyffredinol. Mae gwelliannau amgylcheddol diweddar yn cynnwys gosod bleindiau a charpedi newydd. Gwelsom fod un carped cyntedd wedi'i dreulio'n drwm, a chytunodd yr Unigolyn Cyfrifol i'w newid fel rhan o raglen adnewyddu barhaus.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid a rheoli heintiau da. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân drwyddi draw. Mae cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol, y mae'r gweithwyr gofal yn eu defnyddio'n briodol wrth ddarparu gofal personol. Dywedodd y staff domestig wrthym fod eu gwaith yn rhoi boddhad iddynt. Mae ganddynt fynediad at gynnyrch o ansawdd da ac offer arall sydd eu hangen arnynt. Dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn) i’r gwasanaeth ym mis Ebrill 2022. Prynwyd byrddau cantilifer newydd yn fuan ar ôl yr arolygiad i gymryd lle rhai a ddifrodwyd. Gwelsom ddeunydd ymolchi heb eu labelu yn cael eu storio gyda'i gilydd mewn ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod, gan gynyddu'r risg y byddai'r bobl yn rhannu eitemau a fwriadwyd at ddefnydd personol. Rhoddodd y rheolwyr sicrwydd i ni fod nwyddau ymolchi'r bobl wedi’u storio’n briodol, a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn elwa ar arweinyddiaeth a rheolaeth gref. Mae'r unigolyn cyfrifol yn rheoli'r gwasanaeth gyda chymorth y rheolwr cynorthwyol. Mae'r rheolwyr yn arwain drwy esiampl, gan feithrin diwylliant o fod yn agored ac ymrwymiad i flaenoriaethu llesiant y bobl. Mae'r staff yn glir ynghylch swyddogaethau gwahanol y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal asesiadau ffurfiol o'r gwasanaeth ar ddiwrnodau penodedig. Mae'r asesiadau hyn yn llywio cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant, y mae'r rheolwr cynorthwyol yn ei ddatblygu. Fel y rheolwr, mae'r unigolyn cyfrifol yn weladwy i'r rhai sy'n byw yn y gwasanaeth, yn ymweld ac yn gweithio ynddo. Mae'r staff yn ymddiried yn y rheolwyr i wrando ar eu barn a'u syniadau. Mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac mae'r staff yn hyderus y byddant yn gweithredu ar unrhyw bryderon. Dywedodd y gweithiwr proffesiynol wrthym fod y rheolwyr yn ystyried adborth i wneud gwelliannau.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau gofynnol cyn cyflogi'r staff newydd. Mae hyn yn cynnwys gwiriad troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n cael ei adnewyddu bob tair blynedd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Cânt eu cefnogi i gwblhau cymwysterau gofal cydnabyddedig a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y cwrs dementia y maent yn ei gwblhau yn ystod eu cyfnod sefydlu yn rhoi cipolwg gwerthfawr iddynt ar brofiadau'r rhai sy'n byw gyda dementia. Siaradon nhw'n wybodus ac yn dosturiol am ei effaith ar weithgarwch y bobl o ddydd i ddydd.

Mae'r staff yn gyfforddus yn eu rolau. Mae'r trosiant staff isel yn galluogi'r bobl i brofi parhad gofal da a datblygu perthnasoedd ymddiriedus a chadarnhaol. Mae'r tîm yn falch o ymdeimlad teuluol y cartref. Cawsom adborth cadarnhaol gan y staff ar lafar a thrwy arolygon ar-lein:

- *"Not just a job. I feel part of the home and team. Everyone supports and celebrates each other."*
- *"We work so well as a team."*
- *"The home supports training and gaining qualifications on the job."*

Mae gan y gwasanaeth systemau gweinyddol trefnus. Mae datganiad o ddiben llawn gwybodaeth, wedi'i gyflwyno'n feddylgar, yn esbonio sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Mae mwy o fanylion am drefniadau staffio a llywodraethu wedi'u hychwanegu ers yr arolygiad. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol a gellir eu cyrchu'n hawdd o'r swyddfa. Mae'r polisi diogelu yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r staff yn trafod gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban yn ystod cyfarfodydd y staff a'u goruchwyliaeth ffurfiol, unigol. Mae gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd yn y swyddfa er mwyn i'r staff gyfeirio atynt yn ôl yr angen. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn

perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethant siarad yn hyderus am reoli cwympiadau a digwyddiadau eraill, yn unol â pholisi a gweithdrefn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/07/2023